# Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol VCP Talacharn

## Adroddiad Gwrthwynebiad



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd a Reolir yn Wirfoddol Talacharn**

**ac**

**Rhaglen Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Jane Tremlett,** Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Y Cynghorydd Glynog Davies,** Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Addysg a Phobl Ifanc

# Crynodeb Gweithredol

## Y Cyfnod Ymgynghori

Cyhoeddodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd VC Talacharn a Chyngor Sir Gaerfyrddin gynnig ar y cyd i:

- Newid ystod oedran Ysgol Gynradd VC Talacharn o 4-11 i 3-11.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 4 Medi 2025 yn unol â chyhoeddi'r cynnig a daeth i ben ar 16 Hydref 2025. Derbyniwyd cyfanswm o 16 o ymatebion (heb gynnwys yr ymatebion a dderbyniwyd gan Estyn na'r digwyddiad ymgynghori â'r disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, paratowyd Adroddiad Ymgynghori yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd ac ymatebion y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer penderfyniad ynghylch a ddylid symud ymlaen i gyhoeddi Hysbysiad Statudol ai peidio. Penderfynodd y Corff Llywodraethu ar 6 Tachwedd 2025 i fwrw ymlaen i gyhoeddi Hysbysiad Statudol.

## Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Yn dilyn cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu, cyhoeddodd y Corff Llywodraethu a Chyngor Sir Caerfyrddin y cynnig drwy Hysbysiad Statudol ar 24 Tachwedd 2025 am 28 diwrnod tan 22 Rhagfyr 2025.

Cynigiodd yr Hysbysiad Statudol weithredu'r cynnig ar **12 Ionawr 2026**.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd. Rhaid nodi, o'r 4 gwrthwynebiad a dderbyniwyd, eu bod wedi'u derbyn cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

| Gwrthwynebiadau a Dderbyniwyd | |
|---|---|
| Arolwg ar-lein | Cyfanswm 1 |

Cafwyd 6 ymateb arall, pob un yn mynegi cefnogaeth i'r cynnig.

## Ymatebion a Dderbyniwyd

Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb a oedd yn wahanol i unrhyw un o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## Yr Adroddiad Gwrthwynebiad

Mae'r adroddiad gwrthwynebiad yn crynhoi'r cyflwyniadau a dderbyniwyd mewn gwrthwynebiad i'r cynnig ac ymatebion y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol i'r cyflwyniadau hyn.

Er mwyn cyflawnder, mae'r ymatebion hyn hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ac mae'r themâu ar gyfer y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd fel a ganlyn:

**Pryderon**

- Thema 1 – Mae'r cynnig yn effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal sydd angen cynnal niferoedd disgyblion.

**Cymorth**

- Thema 1 – Mae'r cynnig yn gadarnhaol i'r ysgol a'r gymuned.
- Thema 2 – Gwella mynediad at addysg blynyddoedd cynnar i blant.

## Camau Nesaf

Bydd yr adroddiad gwrthwynebiad yn cael ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethol a fydd, mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Caerfyrddin, yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig ai peidio. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd dosbarth meithrin rhan-amser yn cael ei sefydlu yn yr ysgol o **ddydd Llun 12 Ionawr 2026.**

## Crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymatebion y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol

| Rhif Pwynt | Pwynt wedi'i godi | Ymateb y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol | Nifer o ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn | % yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn |
|---|---|---|---|---|
| **Pryderon a godwyd** | | | | |
| 1. | **<u>Yn effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal.</u>**<br>Nododd yr ymatebwyr y gallai'r cynnig effeithio'n negyddol ar ysgolion lleol eraill gan y gallai disgyblion gael eu denu i Dalacharn oherwydd y ddarpariaeth o addysg feithrin rhan-amser ar draul yr ysgolion hynny.<br><br>Mynegir pryder y gallai ysgolion lleol eraill fod yn cael trafferth cynnal nifer y disgyblion er mwyn sicrhau hyfywedd yn y dyfodol. | Cydnabyddir y gallai'r cynnig gael effaith ar ysgolion eraill. Fodd bynnag, mae Ysgol Griffith Jones, Sanclêr ac Ysgol Gynradd Tafarn-sbeit eisoes yn ysgolion 3-11 ac efallai y byddant yn denu plant o fewn dalgylch Ysgol VCP Talacharn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i blant o Dalacharn deithio y tu allan i'r dalgylch i gael mynediad at ddarpariaeth addysg feithrin ac nid oes darpariaeth arall o fewn y gymuned gyda darparwyr preifat.<br><br>Efallai y bydd Ysgol Gynradd Llanmiloe yn cael ei heffeithio os bydd plant o'r ardal yn cael eu denu i Dalacharn ac yn aros yno pan fyddant yn cyrraedd oedran derbyn yn hytrach na dychwelyd i Lanmiloe. Cydnabyddir bod Ysgol Gynradd Llanmiloe yn profi gostyngiad yn nifer y disgyblion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn unol â dadansoddiad o fylchau o'r ddarpariaeth addysg feithrin ar draws y sir, mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried rhagor o ysgolion a allai symud i fod yn 3-11 oed yn y dyfodol, ac mae'n | 1 | 14% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | bosibl y gallai Llanmiloe gael ei chynnwys yn hyn yn y dyfodol.<br>Ar ben hynny, nid yw addysg feithrin rhan-amser mewn ysgol 3-11 oed yn statudol a gall rhieni ddewis p'un ai i symud eu plant i'r ddarpariaeth yn Ysgol VCP Talacharn ai peidio. Bydd dewis rhieni hefyd yn dod yn ffactor penderfynol pan fydd plant yn mynd i ddarpariaeth amser llawn, ac maent yn gallu gwneud cais i'r ysgol o'u dewis. Dylid nodi na fydd mynychu addysg amser llawn statudol mewn ysgol y tu allan i ddalgylch disgybl yn gymwys i gael cludiant am ddim gan yr Awdurdod Lleol hyd yn oed os yw'r plentyn wedi mynychu darpariaeth feithrin yn yr ysgol honno. | | |

## Crynodeb o'r ymatebion eraill a dderbyniwyd ac ymatebion y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol

| **Rhif Pwynt** | **Pwynt wedi'i godi** | **Ymateb y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol** | **Nifer o ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** | **% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** |
|---|---|---|---|---|
| **Materion a godwyd** | | | | |
| 1. | **<u>Mae'r cynnig yn gyfle cadarnhaol i'r ysgol a'r gymuned.</u>** | Mae'r Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r farn bod y cynnig yn gadarnhaol i'r ysgol a'r gymuned. Os caiff ei weithredu, bydd yn | 2 | 28% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | debygol o gynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol a fydd yn cefnogi cynaliadwyedd yr ysgol yn y dyfodol ar adeg pan fo nifer y disgyblion yn gostwng yn yr ysgol ac ar draws yr Awdurdod Lleol yn ei gyfanrwydd. Bydd y cynnig yn mynd i'r afael â bwlch a nodwyd yn y ddarpariaeth addysg feithrin yn yr ardal leol a allai gael ei waethygu gan ddileu'r polisi 'Rising 4s'. | | |
| 2. | **Mae'r cynnig yn gwella mynediad at addysg blynyddoedd cynnar i blant.** | Mae'r Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r safbwyntiau hyn ac yn cytuno bod manteision i blant o fynychu darpariaeth addysg feithrin o dair oed. Mae'r rhain yn cynnwys gwell datblygiad gwybyddol, datblygiad cynharach sgiliau iaith a chyfathrebu, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, pontio llyfnach i'r ysgol gynradd, adnabod anghenion dysgu yn gynnar, gwell ymgysylltiad rhieni ac amlygiad cynharach i gyfleoedd Cymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg. | 2 | 28% |
| 3. | **Ymatebion eraill**<br>Nododd un ymatebydd gefnogaeth i'r cynnig ond ni roddodd unrhyw fanylion pellach. Dywedodd un arall y byddent wedi dod â'u plant i Ysgol VCP Talacharn, pe bai'r cynnig wedi'i wneud yn y blynyddoedd blaenorol. | | 2 | 28% |